<u>Papurau wedi'u Haddasu - (Cwestiynau Cyffredin) Gwefan CBAC</u>

## Addasiadau sydd ar gael

**Pa addasiadau sydd ar gael gan CBAC/ EDUQAS?**

Iaith wedi’i Haddasu A4 18pt Arial Bold
A4 24pt Arial Bold
A3 24pt Arial Bold
A3 36pt Arial Bold

NIQP (Papur cwestiynau nad yw'n rhyngweithiol) i'w ddefnyddio gyda darllenwyr electronig a chopïo ar bapur lliw
Braille Saesneg Unedig (UEB) – Gradd 1 (Heb ei dracio) a Gradd 2 (Contract)
Diagramau Cyffyrddol

**Pa fformat o bapur wedi'i addasu ydw i'n ei archebu i ddysgwr?**
Nid yw CBAC yn gallu nodi pa addasiadau fyddai fwyaf addas ar gyfer dysgwr. Os yw canolfan yn ansicr o ba fformat wedi’i addasu i'w archebu, mae'n syniad da i siarad ag athro'r ymgeisydd neu'r Cyd gysylltydd Anghenion Addysgol Arbennig (SENCO).

**Beth yw papur wedi'i addasu?**
Mae papur wedi'u addasu yn bapur arholiad sy'n cael ei baratoi ar gyfer ymgeisydd lle mae'r trefniadau mynediad presennol yn anaddas. Maen nhw ar gael mewn amrywiaeth o fformatau sy’n gallu helpu gydag amrediad o anawsterau sy’n wynebu’r ymgeisydd.

**Beth yw papur cwestiynau nad yw’n rhyngweithiol (NIQP)?**
Mae papur cwestiynau nad yw’n rhyngweithiol (NIQP) yn PDF o'r papur cwestiynau safonol. Gellir cael mynediad at y fersiwn hwn o'r papur trwy'r wefan ddiogel ar ddiwrnod yr arholiad lle mae cais wedi'i wneud ar AAO a chofrestriad cyfatebol wedi’i wneud ar gyfer ymgeisydd yn y ganolfan.

**A oes papurau wedi'u haddasu ar gael ymlaen llaw ar gyfer pob pwnc?**
Gellir dod o hyd i gyn-bapurau ar ein gwefannau diogel a chyhoeddus. Byddai'r rhain ond ar gael pe byddem wedi derbyn cais am bapur gydag addasiad penodol mewn cyfres gan eu bod yn cael eu cynhyrchu ar sail cais yn unig.

**Ydych chi'n gallu darparu papur iaith wedi'i addasu?**
Ydyn. Mae CBAC/EDUQAS yn darparu papurau iaith wedi'u haddasu mewn amrywiaeth o bynciau ar wahân i Saesneg Iaith a Mathemateg gan fod yr iaith yn cael ei hadolygu yn y ffynhonnell gan arbenigwr.

**Beth yw'r terfyn amser i archebu papur wedi'i addasu?**
Cyfres Tachwedd (Hydref) - 20 Medi
Cyfres Ionawr (Gaeaf) - 4 Hydref
Cyfres Mai/Mehefin (haf) - 31 Ionawr

****Mae cyflwyno cais yn hwyr neu fethiant i gadw at y terfyn amser terfynol yn cyfyngu ar waith y corff dyfarnu a gall arwain at wrthod archeb****

**A oes angen i mi wneud cofrestriadau cyn archebu papurau wedi'u haddasu?**
Mae terfynau amser cyflwyno cofrestru ar ôl y terfyn amser papurau wedi'u haddasu, felly nid oes angen i chi wneud eich cofrestriadau cyn hyn. Os nad oes angen y papur ac nad yw'r ymgeisydd wedi'i gofrestru, dilëwch yr archeb ar y system Trefniadau Mynediad Ar-lein (AAO).

**Sut ydw i'n archebu papur wedi'i addasu?**
Rhaid cyflwyno archebion gan ddefnyddio'r offeryn gwe **Trefniadau Mynediad Ar-lein (AAO) y CGC**Mae'r offeryn gwe wedi'i leoli ar wefan ddiogel CBAC. Mae'r gallu i wneud cais am bapur wedi'i addasu a'i lawrlwytho wedi'i gyfyngu i brif ddeiliaid y cyfrif yn y y ganolfan. Dewiswch 'Trefniadau Mynediad' yna 'Archebu papurau wedi'u haddasu' a dilynwch y broses i greu a **chyflwyno** cais. Gallwch gyfeirio at lif y broses ym mhennod 6 o'r llyfr CGC  Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol.

**Beth sy'n digwydd os yw ymgeisydd yn newid haen ar ôl i mi  archebu papur wedi'i addasu?**
Bydd angen i chi ganslo'r archeb cyn gynted â phosibl ar AAO ac ail-archebu'r haen gywir.

**Os yw athrawon yn ansicr pa haen mae ymgeisydd yn ei sefyll, a oes modd i ganolfannau archebu'r ddwy haen?**
Ydyn, mae'n bosib archebu'r ddwy haen. Fodd bynnag, ar ôl i'r ymgeisydd gofrestru ar gyfer yr arholiad, rhaid canslo'r haen anghywir yn AAO. Er mwyn canslo bydd angen i chi ddod o hyd i'r archeb wreiddiol a chlicio ar gyfenw'r ymgeisydd. Bydd hyn yn eich galluogi i ganslo'r papur nad oes ei angen mwyach.

**Alla i archebu papur wedi'i addasu ar ôl y terfyn amser?**
Mae'r cyfnod cynhyrchu, o dderbyn yr archeb am bapur wedi'i addasu gan y corff dyfarnu hyd at yr adeg y caiff y papurau eu hanfon yn fach iawn. Mae'r broses o sicrhau ansawdd y papurau wedi'u haddasu yn un drwyadl; mae llawer o wiriadau ansawdd i'w cynnal.   Mae archebion amserol ar gyfer papurau wedi'u haddasu yn hanfodol. Ni fydd archebion hwyr yn cael eu derbyn yn rhwydd gan na ellir gwarantu y bydd modd eu darparu.

**Does dim opsiwn i wneud cais am bapur lliw ar AAO?**
Nid yw CBAC/EDUQAS yn darparu papurau wedi'u printio ar bapur lliw. Gallwch wneud cais am PDF o bapur cwestiynau sylfaenol i fod ar gael yn electronig gan ddewis yr opsiwn am bapur cwestiynau nad yw'n rhyngweithiol (NIQP) o'r rhestr o fformatau sydd ar gael ar AAO.

**Mae gen i ymgeisydd sydd angen papur wedi'i addasu ond hefyd ar bapur lliw, beth ddylwn i ei wneud?**
Gwnewch yr archeb drwy'r AAO i sicrhau bod papur wedi'i addasu yn cael ei gynhyrchu. Byddwch yn derbyn copi caled o'r papur ond bydd angen i chi gysylltu â'r adran cyfresi arholiadau briodol ar ddiwrnod yr arholiad i ofyn am gyfrinair i gael mynediad i'r PDF o'r papur wedi'i addasu i'w uwchlwytho a'i drosglwyddo/argraffu ar y papur lliw mwyaf priodol ar gyfer yr ymgeisydd.  Sicrhewch eich bod yn gofyn am y fersiwn MLP yn y maint ffont cywir.

## Ymholiadau cyffredinol am bapurau wedi'u haddasu

**Sut ydw i'n archebu Braille Gradd 1 gan fod AAO ond yn caniatáu i mi archebu Gradd 2?**
Dim ond archebion ar gyfer Braille Gradd 2 y mae AAO yn eu caniatáu, ond nid yw hyn yn golygu na all CBAC/EDUQAS ei ddarparu. Gwnewch yr archeb am Radd 2 Braille yna anfonwch e-bost at papurauwediuhaddasu@cbac.co.uk gan ddarparu rhif eich archeb a'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ar gyfer Braille Gradd 1.  Byddwn yn diwygio ein system yn lleol i sicrhau bod fersiwn Gradd 1 yn cael ei gynhyrchu a'i gyflenwi.

**Pa amser bydd y papurau PDF ar gael cyn yr amser dechrau cyhoeddedig?**
Bydd papurau ar gael 90 munud cyn yr amser dechrau cyhoeddedig. Os yw cais wedi'i wneud am y fersiwn safonol o'r papur cwestiynau (NIQP) ac mae cofrestriad dilys, gellir cael mynediad at y rhain ar y wefan ddiogel o dan adnoddau heb yr angen i ffonio am gyfrinair.

**Nid yw'r papur wedi'i addasu y mae angen i mi ei archebu yn ymddangos ar AAO**
Gall safle'r AAO fod yn sensitif i lythrennau bach/mawr wrth chwilio. Dewiswch 'CBAC' fel y corff dyfarnu o'r gwymplen ac yna rhowch bedwar nod cyntaf o god cydran y papur. *Osyw'r ymgeisydd yn sefyllMathemateg Rhifedd Uned 1 Sylfaenol (3310N10-1) er enghraifft, bydd angen i chi fewnbynnu 3310 i'r tab chwilio a dylai hyn ddangos yr holl bapurau sy'n dechrau gyda '3310'. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig os oes angen mwy nag un papur wedi'i addasu neu os yw'r papur ar gael mewn amrywiaeth o haenau.

**Rwyf wedi mewnbynnu'r termau chwilio'n gywir ond nid yw'r papur wedi'i addasu rydw i angen ei archebu ar gael**
Gwiriwch eich bod wedi mewnbynnu'r cod cydran yn hytrach na chod y fanyleb neu'r opsiwn. Mae AAO yn adnabod cod cydran penodol y papur penodol. Mewnbynnwch y pedwar nod cyntaf o'r cod cydran a chwiliwch.

**Alla i gael mynediad i gyn-bapurau sydd wedi'u haddasu at bwrpas ffug arholiad?**
Gallwch. Mae cyn-bapurau i'w gweld ar wefan ddiogel CBAC/EDUQAS. Maen nhw ar gael i'w lawrlwytho mewn fformat PDF. Dewiswch y pwnc a'r lefel cymhwyster sydd eu hangen o'r gwymplen. Bydd hyn wedyn yn nodi'r papurau wedi'u haddasu sydd ar gael ar waelod y dudalen. Bydd gan y fersiwn papur wedi'i addasu'r ôl-ddodiad naill ai MLP (Print Mawr wedi'i Addasu) neu ML (Iaith wedi'i Haddasu). Ar gyfer cyn-bapurau Braille anfonwch e-bost at papurauwediuhaddasu@cbac.co.uk

**Nid wyf wedi derbyn cadarnhad o fy archeb papur wedi'i addasu**
Nid yw AAO yn darparu cadarnhad i ganolfan pan mae archeb yn cael ei chyflwyno. Fodd bynnag, gall canolfan fynd yn ôl at yr archeb unrhyw bryd i'w gwirio. Rhaid i ganolfannau sicrhau eu bod yn clicio ar y botwm CYFLWYNO sy'n cadarnhau bod yr archeb wedi'i chyflwyno yn llwyddiannus. Bydd methu â gwneud hynny yn golygu bod y cais yn aros mewn ffolder ddrafft ac yn golygu na fydd y ganolfan yn derbyn yr archeb a gyflwynwyd ganddi.

**Rwyf wedi archebu'r papur wedi'i addasu anghywir i ddysgwr / mae amgylchiadau wedi newid**
Bydd AAO yn caniatáu'r opsiwn i ganslo archeb papur wedi'i addasu. Os nad oes angen y papur cwestiynau arnoch mwyach neu os oes angen newid cais, dilëwch y llinell archebu wreiddiol ac ail-archebwch y papur gofynnol.

**Rwyf wedi derbyn papur wedi'i addasu, ond mae'n ymddangos yn wahanol i bapur safonol**
Mae'r broses o addasu papur cwestiynau yn golygu newid gosodiad a chyflwyniad cychwynnol papur safonol heb newid gofynion yr asesiad. Er enghraifft, byddai rhaid ail-luniadu diagramau; hepgor delweddau, neu newid geiriau penodol i wneud y papur yn fwy hygyrch.

**Pryd y byddaf yn derbyn y papurau wedi'u haddasu?**
Mae CBAC/EDUQAS yn anelu at ddosbarthu papurau wedi'u haddasu oddeutu 7-10 diwrnod cyn dyddiad swyddogol yr arholiad..

**Nid wyf wedi derbyn fy mhapurau wedi'u haddasu ac mae'r arholiad o fewn 5 diwrnod**
Sicrhewch eich bod wedi cyflwyno'r cais yn llwyddiannus drwy'r AAO. Os ydych wedi gwirio a chyflwyno'r archeb, anfonwch e-bost at papurauwediuhaddasu@cbac.co.uk byddwn wedyn yn ceisio datrys yr ymholiad.

**Mae fy archeb papur wedi'i addasu yn anghyflawn**
Gwiriwch y nodyn dosbarthu sy'n cyd-fynd â'ch archeb. Bydd y nodyn dosbarthu yn cynnwys yr holl fanylion archebu ac yn nodi os oes unrhyw bapurau eraill i ddilyn.

## Esboniad o broses Papurau Wedi'u Haddasu i ganolfannau

**Mae CBAC/EDUQAS yn derbyn archebion am bapurau wedi'u haddasu ar ôl iddynt gael eu cyflwyno drwy'r AAO gan ganolfan.**

**Papur Wedi'i Addasu yn dechrau cael ei gynhyrchu. Mae rhai papurau wedi'u haddasu yn cael eu rhag-gynhyrchu yn seiliedig ar geisiadau cyson o gyfresi blaenorol, ond mae'r rhan fwyaf o bapurau wedi'u haddasu yn cael eu cynhyrchu i'w harchebu ar sail cais yn unig.**

**Cynhelir gwiriadau sicrhau ansawdd i sicrhau bod y papur wedi'i addasu o'r un ansawdd â phapurau cwestiynau safonol.**

**Mae'r papur cwestiynau wedi'i addasu yn cael ei argraffu.**

**Mae'r papur cwestiynau wedi'i addasu yn cael ei anfon i gyrraedd mewn da bryd cyn dyddiad yr arholiad sydd wedi'i amserlennu. Efallai na fyddwch yn derbyn yr holl bapurau wedi'u haddasu yn yr un dosbarthiad, a byddant yn cyrraedd ar**

**Mae papurau wedi'u haddasu yn cyrraedd mewn pecynnau papurau cwestiynau du gyda label melyn ar flaen y pecyn. Gwiriwch y label yn ofalus ac anfonwch e-bost at papurauwediuhaddasu@cbac.co.uk os yw unrhyw fanylion yn anghywir.**